**Beirniadaethau Unigol**

**Superman 346/1**

Gwaith gwreiddiol diddorol , y llythyr a'r traethawd yn adlewyrchu cefndir yr ymgeisydd a'r cerddi syml yn ennyn ymateb gan y darllenydd . Roedd pob un o'r darnau yn arddangos mynegiant syml ond cywir ar y cyfan . O ystyried ei gefndir roedd gafael Superman ar iaith sgyrsiol syml yn ei alluogi i gyfathrebu'n glir ar y cyfan.

**Pinafal 346/2**

Casgliad o waith gwreiddiol o ran syniadau ac ôl dychymyg byw oedd yn dal sylw'r darllenydd yn syth, yn enwedig y darnau oedd yn cyfuno ei chariad at ffotograffiaeth a'i dawn disgrifiadol . Roedd yr iaith drwyddi draw yn gywir ar y cyfan ac roedd Pinafal yn fwy estynedig o ran geirfa ac arddull yn ei gwaith ysgrifenedig nag ar lafar . Ar lafar roedd Pinafal yn hyderus ac yn gallu cynnal sgwrs naturiol, fywiog gan ddefnyddio cystrawen lafar naturiol yr ardal ond heb fod yn rhy uchelgeisiol o ran y cynnwys.

**Cariad 346/3**

Casgliad o waith ysgrifenedig estynedig ond ailadroddus yn enwedig yr erthygl a'r dyddiadur ar Gymru. Cafwyd sgwrs ddiddorol ond er bod ganddi eirfa eang byddai Cariad yn sicr o elwa o fwy o ymarfer i ddatblygu ei rhugldder.

**Branwen 346/4**

Casgliad o waith ar thema'r Mabinogi a lwyddodd i daro deuddeg ar y darlleniad cyntaf , yn waith gwreiddiol sy'n disgrifio digwyddiadau a theimladau cymeriadau allweddol benywaidd y Mabinogi sef Blodeuwedd , Rhiannon a Branwen. Roedd hi'n amlwg fod gan Branwen afael da ar gystrawen yr iaith a geirfa estynedig. Ar lafar roedd Branwen yn gallu cynnal sgwrs weddol naturiol ac estynedig wrth drafod ei diddordebau amrywiol ond ar brydiau roeddem o'r farn y byddai Branwen yn fwy rhugl a hyderus wrth siarad yr iaith gyda mwy o ymarfer . Yn anffodus doedd ei sgwrs lafar ddim mor hyderus â'i gwaith ysgrifenedig ardderchog.

**Seren 346/5**

Pecyn o waith ysgrifenedig estynedig digon derbyniol a darllenadwy ond gwallau iaith amlwg drwyddi draw. Byddai pob un o'r darnau wedi elwa petai Seren wedi crynhoi'r cynnwys rhywfaint.

**Ledi Mary 346/6**

Roedd hi'n amlwg mai diddordeb pennaf Ledi Mary yw cerddoriaeth , yn enwedig ei chysyllltiadau â Cherddorfa Cenedlaethol Ieuenctid Cymru . Roedd y pecyn o waith ysgrifenedig safonol yn cynnwys adroddiad diddorol ar sefydlu'r gerddorfa, llythyr a sgwrs

oedd yn rhoi cip i ni o fywyd cerddor ymroddedig yn ystod y cwrs  preswyl blynyddol . Roedd y gwaith yn dangos gafael dda iawn ar batrymau amrywiol yr iaith a gwybodaeth o eirfa eang perthnasol . Ar lafar roedd Ledi Mary yn rhugl wrth siarad am ei diddordeb mewn cerddoriaeth gan ddangos aeddfedrwydd a bywiogrwydd wrth drafod a mynegi barn ar y byd cerddorol a'i dyheadau am y dyfodol.

**Beth nesaf 346/7**

Gwaith ysgrifennu estynedig yn ceisio bod yn uchelgeisiol yn enwedig wrth drafod gordewdra , roedd y darnau ar y Gemau Olympaidd a Dai Greene yn ddiddorol ac ôl ymchwil manwl, serch hynny roedd gwallau ieithyddol yn amharu ar lif y gwaith ar brydiau . Ar lafar roedd Beth nesaf yn gallu cynnal sgwrs eitha diddorol ond byddai'n elwa o fwy o ymarfer i ddatblygu ei rhuglder .

**Clywed 346/8**

Pecyn o waith ysgrifenedig amrywiol ond yn syml o ran geirfa a chynnnwys, doedd dim llawer o ôl dychymyg heblaw'r ymgais i lunio cerdd ar y pwnc Gaeaf yng Nghymru . Roedd sgwrs Clywed yn fyr ac ar lefel syml ac yn dangos diffyg i gynnal ymatebion estynedig.

**Bethan Lines 346/9**

Cyflwynwyd tri darn byr o waith gydag un o'r darnau ddim yn cwrdd â gofynion y gystadleuaeth . Ar lafar, o dystiolaeth y fideo roedd Bethan Lines yn gallu cynnal sgwrs syml personol ond ddim yn  uchelgeisiol .

**Kyffin 346/10**

Gwaith estynedig ysgrifenedig diddorol iawn  yn ymwneud â byd celf gydag ôl gwaith ymchwil manwl ym mhob darn. Er yr eirfa eang a'r patrymau ieithyddol amrywiol doedd y mynegiant ddim yn taro deuddeg bob amser ac yn amharu ar lif y cynnwys.  Ar lafar roedd Kyfffin yn weddol hyderus a bywiog wrth drafod ei ddiddordeb, yn enwedig mewn rhedeg.

**Lee 346/11**

Pecyn o waith ysgrifenedig amrywiol iawn gyda'r sgwrs 'Y Ddraig Goch ' yn syniad hynod o wreiddiol, serch hynny doedd gweddill y gwaith ar Solomon a Gaenor a'r llythyr i Lady Llanofer ddim mor llwyddiannus . Ar lafar roeddd Lee yn gallu cynnal sgwrs ddiddorol heb fod yn rhy uchelgeisiol .

.

**Beirniadaeth i'r Cyfansoddiadau**

Mae'n braf cofnodi bod 11 ymgeisydd eleni ar gyfer Medal y Dysgwyr ac hoffem ddiolch i'r ymgeiswyr a'u hathrawon am eu gwaith – roedd ôl ymdrech ac ymroddiad yn amlwg wrth ddarllen pob un o'r casgliadau ysgrifenedig ac wrth wrando ar eu sgyrsiau amrywiol . Wrth feirniadu eleni rydym wedi ystyried sgiliau ieithyddol ysgrifenedig a llafar yr ymgeiswyr .

O ran y gwaith ysgrifenedig , rhoddwyd ystyriaeth i gywirdeb ieithyddol a mynegiant clir ynghŷd âg ôl dychymyg ac apêl i'r darllenydd. Ar lafar , ystyriwyd rhuglder a hyder y sgyrsiau ynghŷd â'r defnydd o adnoddau iaith estynedig.

Yn fras gellid rhannu'r ymgeiswyr i bedair carfan . Yn y bedwaredd garfan rhoddir Clywed, Cariad , Bethan Lines a Seren. Roedd gwaith Clywed yn ysgrifenedig ac ar lafar yn syml o ran geirfa a chynnwys, tra roedd Cariad wedi ysgrifennu'n estynedig ond yn ail adroddus ac heb fod yn rhy hyderus ar lafar. Nid oedd pecyn Bethan Lines yn cwrdd â gofynion y gystadleuaeth ond roedd hi'n gallu cynnal sgwrs syml personol . Er bod cynnwys gwaith ysgrifenedig Seren yn ddigon derbyniol, roedd gwallau iaith amlwg drwyddi draw.

Rhoddwyd Superman a Lee yn y drydedd garfan gan fod elfen gref o wreiddioldeb yn perthyn i'w gwaith ysgrifenedig . Llwyddodd Superman i lunio llythyr a thraethawd diddorol yn cyfeirio at ei gefndir yn Lithuania ac roedd ei gerddi syml a thrawiadol yn dangos ei ddawn creadigol . Roedd gafael Superman ar iaith sgyrsiol syml yn ei alluogi i gyfathrebu'n glir ar y cyfan. Roedd sgwrs 'Y Ddraig Goch ' gan Lee yn syniad hynod o wreiddiol ond yn anffodus nid oedd gweddill y gwaith mor llwyddiannus . Ar lafar roedd Lee yn gallu cynnal sgwrs ddiddorol heb fod yn rhy uchelgeisiol .

Yn yr ail garfan mae Beth nesaf a Kyffin. Cafwyd gwaith ysgrifenedig uchelgeisiol gan y ddau ymgeisydd yma ond roedd gwallau mynegiant yn amharu ar lif y gwaith. Ar lafar roedd Beth nesaf a Kyffin yn gallu ymateb yn estynedig ac yn weddol hyderus wrth drafod eu diddordebau .

Daeth tri ymgeisydd i'r brig ac fe'u gwahoddwyd i gyfweliad pellach. Cyflwynodd Pinafal gasgliad o waith gwreiddiol o ran syniadau ac ôl dychymyg byw oedd yn dal sylw'r darllenydd yn syth, yn enwedig y darnau oedd yn cyfuno ei chariad at ffotograffiaeth a'i dawn disgrifiadol . Cryfder Pinafal oedd y gwaith ysgrifenedig, yn fwy estynedig o ran geirfa ac arddull o'i gymharu â'i sgwrs.

Chwedlau'r Mabinogi aeth a bryd Branwen a llwyddodd i daro deuddeg ar y darlleniad cyntaf , yn waith gwreiddiol sy'n disgrifio digwyddiadau a theimladau Blodeuwedd , Rhiannon a Branwen. Roedd hi'n amlwg fod gan Branwen afael da ar gystrawen yr iaith a geirfa estynedig. Ar lafar roedd Branwen yn gallu cynnal sgwrs weddol naturiol ac estynedig wrth drafod ei diddordebau amrywiol. Yn anffodus doedd ei sgwrs lafar ddim mor hyderus â'i gwaith ysgrifenedig ardderchog.

Roedd hi’n amlwg mai diddordeb pennaf Ledi Mary yw cerddoriaeth , yn enwedig ei chysyllltiadau â Cherddorfa Cenedlaethol Ieuenctid Cymru . Roedd y gwaith ysgrifenedig o safon ac yn cynnwys adroddiad diddorol ar sefydlu’r Gerddorfa, llythyr a sgwrs oedd yn rhoi cip i ni o fywyd cerddor ymroddedig yn ystod y cwrs  preswyl blynyddol . Roedd y gwaith yn dangos gafael dda iawn ar batrymau amrywiol yr iaith a gwybodaeth o eirfa eang perthnasol.  Ar lafar roedd Ledi Mary yn rhugl wrth siarad am ei diddordeb mewn cerddoriaeth gan ddangos aeddfedrwydd a bywiogrwydd wrth drafod a mynegi barn ar y byd cerddorol a’i dyheadau am y dyfodol.

Ar ôl pwyso a mesur, mae Ledi Mary, heb amheuaeth, yn llawn haeddu Medal y Dysgwyr eleni gyda Branwen yn ail a Pinafal yn drydydd . Llongyfarchiadau mawr iddynt a phob llwyddiant wrth barhau i ddysgu’r Gymraeg.

**Beirniadaeth i'r Llwyfan**

Ar ran Sian a minnau hoffwn ddiolch Pwyllgor y Dysgwyr am yr anrhydedd i feirniadu Medal y Dysgwyr yn eisteddfod yr Urdd Caerffili eleni , bu'n brofiad pleserus tu hwnt .

Mae'n braf cofnodi bod 11 ymgeisydd eleni ar gyfer Medal y Dysgwyr ac hoffwn ddiolch yr ymgeiswyr a'u hathrawon am eu gwaith – cafwyd ôl ymdrech ac ymroddiad wrth ddarllen pob un o'r casgliadau ysgrifenedig ac wrth wrando ar eu sgyrsiau amrywiol . Mae'n ddiddorol nodi yma hefyd bod cefndir dysgu'r iaith yn bur wahanol ymysg yr ymgeiswyr gyda' r hwyrddyfodiad yn mynychu canolfannau iaith ac eraill wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol yn unig .

Wrth feirniadau eleni rydym wedi ystyried sgiliau ieithydol ysgrifenedig a llafar yr ymgeiswyr . O ran y gwaith ysgrifenedig ,rhoddwyd ystyriaeth i gywirdeb ieithyddol a mynegiant clir ynghŷd âg ôl dychymyg ac apêl i'r darllenydd. Ar lafar , ystyriwyd rhuglder a hyder y sgyrsiau ynghŷd â'r defnydd o adnoddau iaith estynedig. Wrth gloriannu'r ymgeiswyr bu'r canllawiau hyn yn sicr yn gymorth wrth ddod i ganlyniad. Ar sail y cyfuniad o dystiolaeth ysgrifenedig a sgyrsiau llafar penderfynwyd gwahodd tri ymgeisydd i gyfweliad pellach , ac fe'm plesiwyd yn fawr gan eu sgyrsiau bywiog a ffres. Roeddent yn amlwg yn mwynhau dysgu'r Gymraeg ac yn ôl eu sgyrsiau wedi gwneud yn fawr o bob cyfle i ymestyn a chyfoethogi eu defnydd ohoni tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn fras gellid rhannu'r ymgeiswyr nas gwahoddwyd i'r cyfweliadau pellach i dri carfan . Yn y drydedd garfan rhoddir Clywed, Cariad , Bethan Lines a Seren. Roedd gwaith Clywed yn ysgrifenedig ac ar lafar yn syml o ran geirfa a chynnwys, tra roedd gan Cariad wedi ysgrifennu estynedig ond yn ail adroddus ac heb fod yn rhy hyderus ar lafar. Nid oedd pecyn Bethan Lines yn cwrdd â gofynion y gystadleuaeth ond roedd hi'n gallu cynnal sgwrs syml personol heb fod yn uchelgeisiol. Er bod gwaith ysgrifenedig digon derbyniol o ran cynnwys gan Seren roedd gwallau iaith amlwg drwyddi draw.

Rhoddwyd Superman a Lee yn yr ail garfan gan fod elfen gref o wreiddioldeb yn perthyn i'w gwaith ysgrifenedig . Llwyddodd Superman i lunio llythyr a thraethawd diddorol yn cyfeirio at ei gefndir yn Lithuania ond ei gerddi syml a thrawiadol oedd yn dangos ei ddawn creadigol . Roedd gafael Superman ar iaith sgyrsiol syml yn ei alluogi i gyfathrebu'n glir ar y cyfan. Roedd sgwrs 'Y Ddraig Goch ' gan Lee yn syniad hynod o wreiddiol ond yn anffodus nid oedd gweddill y gwaith mor llwyddiannus . Ar lafar roeddd Lee yn gallu cynnal sgwrs ddiddorol heb fod yn rhy uchelgeisiol .

Yn y garfan gyntaf mae Beth nesaf a Kyffin , gwaith ysgrifenedig uchelgeisiol oedd yn nodweddu'r ddau ymgeisydd yma ond roedd gwallau mynegiant yn amharu ar lif y gwaith gan y ddau . Ar lafar roedd Beth nesaf a Kyffin yn gallu ymateb yn estynedig ac yn weddol hyderus wrth drafod eu diddordebau .

Wrth droi at y tri ymgeisydd ddaeth i'r brig, roedd Pinafal wedi cyflwyno casgliad o waith gwreiddiol o ran syniadau ac ôl dychymyg byw oedd yn dal sylw'r darllenydd yn syth, yn enwedig y darnau oedd yn cyfuno ei chariad at Ffotograffiaeth a'i dawn disgrifiadol . Roedd yr iaith drwyddi draw yn gywir ar y cyfan ond roedd Pinafal yn fwy estynedig o ran geirfa ac arddull yn ei gwaith ysgrifenedig nag ar lafar . Ar lafar roedd Pinafal yn hyderus ac yn gallu cynnal sgwrs naturiol, fywiog gan ddefnyddio cystrawen lafar naturiol yr ardal ond heb fod yn rhy uchelgeisiol o ran y cynnwys.

Chwedlau'r Mabinogi aeth a bryd Branwen a llwyddodd i daro deuddeg ar y darlleniad cyntaf , yn waith gwreiddiol sy'n disgrifio digwyddiadau a theimladau Blodeuwedd , Rhiannon a Branwen. Roedd hi'n amlwg fod gan Branwen afael da ar gystrawen yr iaith a geirfa estynedig. Ar lafar roedd Branwen yn gallu cynnal sgwrs weddol naturiol ac estynedig wrth drafod ei diddordebau amrywiol. Yn anffodus doedd ei sgwrs lafar ddim mor hyderus ai gwaith ysgrifenedig ardderchog.

Roedd hi'n amlwg mai diddordeb pennaf Ledi Mary yw cerddoriaeth , yn enwedig ei chysyllltiadau â Cherddorfa Cenedlaethol Ieuenctid Cymru . Roedd y gwaith ysgrifendeig o safon ac yn cynnwys adroddiad diddorol ar sefydlu'r Gerddorfa, llythyr a sgwrs oedd yn rhoi cip i ni o fywyd cerddor ymroddedig yn ystod y cwrs preswyl blynyddol . Roedd y gwaith yn dangos gafael dda iawn ar batrymau amrywiol yr iaith a gwybodaetho eirfa eang perthnasol Ar lafar roedd Ledi Mary yn rhugl wrth siarad am ei ddiddordeb mewn cerddoriaeth gan ddangos aeddfedrwydd a bywiogrwydd wrth drafod a mynegi barn ar y byd cerddorol a'i dyheadau am y dyfodol.

Ar ôl pwyso a mesur heb amheuaeth mae Ledi Mary yn llawn haeddu Medal y Dysgwyr eleni gyda Branwen yn ail a Pinafal yn drydydd . Llongyfrachiafdau mawr iddynt a phob llwyddiant wrth barhau i ddysgu't Gymraeg.

**Mererid Morgan**

Mae gan Mererid Morgan brofiad helaeth ym maes Cymraeg ail iaith. Bu'n athrawes a phennaeth adran mewn ysgolion yn ardal Abertawe am un mlynedd ar hugain cyn ei phenodi'n Ymgynghorydd y Gymraeg dros siroedd Caerffili, Merthyr Tydfil, Penybont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yn 2001. Yn ddiweddar, cyn ei hymddeoliad eleni, bu'n Gyfarwyddwr Cefnogaeth Addysgol CBAC .